Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod

# Mari George



## Bywgraffiad

Cafodd Mari ei geni a'i magu ym Mhen-y-bont ar Ogwr a bellach mae hi nôl yna yn magu ei phlant ei hun, Elen a Morgan gyda'i gŵr, Gwyn. Mae'n fardd, awdur, cyfieithydd a golygydd sgriptiau a llyfrau plant ac oedolion. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth, *Siarad Siafins* a *Y Nos yn Dal yn Fy Ngwallt*. Cyhoeddodd hefyd sawl llyfr i blant. Mae hi'n aelod o dîm talwrn Aberhafren ar gyfer y Talwrn Radio Cymru. Enillodd ei nofel gyntaf i oedolion *Sut i Ddofi Corryn* brif wobr Llyfr y Flwyddyn yn 2024. Cyhoeddodd y bamffled *Rhaff* ar gyfer Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024 ac mae'n ddarlun o gwpl yn dod i delerau â dementia.




## Crynodeb:

*Diwrnod Cyntaf Wini* yw llyfr diweddaraf Mari a gyhoeddwyd gan Rily.

"Mae'r gwyliau drosodd, ond mae'r antur ar fin dechrau wrth i Wini ddechrau yn nosbarth Mrs Jones Jiráff. Mae hi'n awyddus i wneud ffrindiau a chael hwyl. Ond pan aiff rhywbeth o'i le, mae Wini'n dysgu gwers werthfawr am garedigrwydd, empathi a chyfeillgarwch."



### Pa ddylanwadau ac atgofion oedd yn sefyll allan yn dy blentyndod?

Roeddwn yn hoff iawn o ddarllen llyfrau Cymraeg a Saesneg pan oeddwn i'n blentyn. Does dim byd fel camu i fyd arall a dianc o'ch sefyllfa am gyfnod. Dyna beth yw ryfeddod llyfrau. Roedd fy rhieni yn fy annog i fod yn greadigol ac roedd fy athrawon Cymraeg Lefel A yn hynod o ysbrydoledig. Roedden nhw'n fy annog i ysgrifennu.

### Fel person ifanc, pwy neu beth wnaeth ddylanwadu arnat? Miwsig, enwogion, rhaglenni teledu, llyfrau, cylchgronau, pobl yn dy fywyd bob dydd...

Roeddwn yn hoff o wrando ar gerddoriaeth Caryl Parry Jones. Mae ei chaneuon hi fel barddoniaeth. Roeddwn hefyd wrth fyd modd a llyfrau Enid Blyton a straeon hud a lledrith. Roeddwn yn darllen llawer o gylchgronau hefyd ac yn cael rhai drwy'r post bob wythnos. Roedd hynny'n beth poblogaidd ar y pryd

### Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnot yn ystod dy fywyd?

Dwi wedi bod yn mynd i'r llyfrgell ers cyn cof. Dwi'n cofio arogl Llyfrgell Pen-y-bont pan oeddwn yn fach a'r tawelwch hyfryd. O'n i wrth fy modd yn dewis llyfr. Mae'r ffaith bod y llyfrau am ddim i'w benthyg yn wych oherwydd fe allwch ddewis rhywbeth na fyddech fel arfer wedi bod awydd ei brynu yn y siop. Cyfle i drio rhywbeth gwahanol. Dwi wedi magu fy mhlant innau i fynd i'r llyfrgell hefyd. Roedd y cynllun darllen dros wyliau'r haf yn beth arbennig o dda iddyn nhw.

### Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?

Codwch lyfr a darllen y dudalen gyntaf. Fel arfer mater o agor y llyfr yw'r unig beth sydd angen i chi gael eich tynnu mewn. Mae darllen yn rhywbeth hudolus. Gallwch chi fyw bywyd rhywun arall heb symud o'r fan.



RILY www.rily.co.uk

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru